**Cwestiynau Cyffredin – Gwesty'r Vulcan**

**Pa fath o ddiodydd fydd ar gael yn y Vulcan?**

Bydd detholiad o ddiodydd ar gael gan gynnwys cwrw Glamorgan Brewing Co. Bydd diodydd heb alcohol a diodydd meddal ar gael hefyd.

**Alla i brynu mwy nag un diod?**

Gallwch chi brynu mwy nag un diod ond rydyn ni'n annog pobl i yfed yn gyfrifol. Mae hawl gyda ni i beidio gwerthu alcohol i unrhyw un sydd yn feddw ac yn afreolus.

**Ydw i'n gallu archebu diod ymlaen llaw?**

Gallwch chi archebu detholiad o gwrw, neu lemonêd, ymlaen llaw. Ewch i https://amgueddfa.cymru/sainffagan/adeiladau/tafarn_y_vulcan/vulcan/.

**Ydw i'n gallu ymweld â'r dafarn heb archebu ymlaen llaw?**

Wrth gwrs. Gallwch chi ymweld â'r Vulcan heb archebu ymlaen llaw. Ond rydyn ni'n disgwyl bydd y dafarn yn brysur iawn a bydd rhaid i chi giwio i gael mynediad.

**Pa mor hir alla i aros yn y Vulcan?**

Mae archebu detholiad o gwrw yn sicrhau bwrdd am awr. Does dim rhaid i chi adael ar ôl awr, ond cofiwch ystyried ymwelwyr eraill sydd eisiau cyfle i weld y dafarn, a peidiwch aros yn y Vulcan drwy'r dydd.

**Beth yw'r oriau agor?**

Bydd y Vulcan ar agor yn ystod oriau agor yr Amgueddfa.

**Ydw i'n gallu llogi'r Vulcan ar gyfer digwyddiad?**

I logi'r Vulcan ar gyfer parti neu ddigwyddiad, ewch i [Y Vulcan | Museum Wales (amgueddfa.cymru)].

**Alla i fynd â cŵn i'r dafarn?**

Na. Adeilad hanesyddol yw'r Vulcan ac fel pob adeilad hanesyddol arall yn yr Amgueddfa, does dim hawl mynd a chŵn i mewn i'r dafarn.

**Ydw i'n gallu mynd a phram i mewn i'r adeilad?**

Does dim hawl mynd a phram i mewn i'r Vulcan. Fel nifer o adeiladau hanesyddol yn Sain Ffagan, mae'r Vulcan yn adeilad bach a does dim digon o le. Mae croeso i chi fynd a phramiau i mewn i Eglwys Sant Teilo, Llys Llywelyn ac Oakdale.

**Oes croeso i blant yn y dafarn?**

Mae croeso i blant yng nghwmni oedolyn.

**Pam ydych chi'n gwerthu cwrw *keg* yn lle cwrw casgen?**

Rydyn ni'n gweithio gyda Glamorgan Brewing Co. i ddarparu cwrw ar gyfer y Vulcan, a cwrw *keg* fyddwn ni'n ei werthu i ddechrau. Mae cwrw *keg* yn para'n hirach na chwrw casgen, a gan nad oes modd i ni ragweld faint o gwrw fyddwn ni'n ei werthu, mae cwrw *keg* yn helpu i leihau gwastraff. Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn teimlo'n gryf am gwrw casgen a byddwn ni'n adolygu'r penderfyniad dros y misoedd nesaf pan fydd mwy o ddata am sut mae'r dafarn yn gweithredu a faint o gwrw rydyn ni'n ei werthu.

**Pam fyddwch chi ddim yn gwerthu cwrw Brains**?

Wnaeth Brains ddim gwneud cais i ddarparu cwrw ar gyfer y Vulcan yn Sain Ffagan.

**Oes modd ysmygu yn y dafarn neu'r iard?**

Does dim hawl 'smygu neu fepio unrhyw le yn yr Amgueddfa, gan gynnwys yn yr awyr agored.

**A fydd bwyd ar gael?**

Bydd detholiad o fyrbrydau ar gael.

**Alla i ddod a bwyd fy hun i mewn i'r Vulcan?**

Na, does dim hawl dod a bwyd eich hun i mewn i'r Vulcan.

**Oes tai bach yn y Vulcan?**

Oes, mae tai bach yn y Vulcan.

**Pa mor hygyrch yw'r adeilad ar gyfer pobl mewn cadeiriau olwyn?**

Mae'r Vulcan yn hygyrch i gadeiriau olwyn. Mae mynediad heb risiau ac er bod yr adeilad yn fach, mae drysau wedi cael eu lledu. Mae tŷ bach anabl ar gael yn yr adeilad.